communities *first* **cymunedau** *yn gyntaf*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymunedau yn Gyntaf – Y Dyfodol

Eich Canllaw Byr i'r Ymgynghoriad

www.cymru.gov.uk

Beth yw Cymunedau yn Gyntaf?

Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac anfantais gymdeithasol yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru yw Cymunedau yn Gyntaf. Ers iddi ddechrau yn 2001 mae'r rhaglen, sy'n gweithio trwy bartneriaethau lleol, wedi llwyddo i helpu pobl leol i ennill y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i wneud newidiadau cadarnhaol i'w cymunedau.

Mae'r amser wedi dod i'r rhaglen symud ymlaen, gan adeiladu ar lwyddiant y blynyddoedd cynnar, manteisio ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni ledled Cymru a defnyddio pob llwybr posibl i weddnewid bywydau pobl yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae hefyd angen ystyried y gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i adroddiadau ar sut roedd y rhaglen gyfredol yn gweithredu.

Dyfodol Cymunedau yn Gyntaf

O fis Ebrill 2012 ymlaen, bydd Cymunedau yn Gyntaf yn Rhaglen sy'n canolbwyntio ar y Gymuned a fydd yn cefnogi Agenda Gwrth-dlodi Llywodraeth Cymru. Bydd yn cefnogi'r bobl fwyaf difreintiedig yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig gyda'r nod o gyfrannu at liniaru tlodi parhaus. Bydd yn canolbwyntio ar gamau gweithredu cymunedol, a'i nod fydd gweithio ochr yn ochr â rhaglenni eraill i gau'r bylchau **addysg, sgiliau, economaidd ac iechyd** rhwng ardaloedd mwyaf difreintiedig ac ardaloedd mwy cefnog Cymru. Mewn perthynas ag addysg a sgiliau, byddwn yn canolbwyntio ar gefnogi gwaith a fydd yn gwneud unigolion yn fwy cyflogadwy yn y pen draw.

Datblygiadau allweddol

Bydd llwyddo i gyflawni amcanion y rhaglen yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys:

- **Cymorth y Llywodraeth gyfan:** Bydd Cabinet Cymru yn ymrwymo i flaenoriaethu polisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru er mwyn cefnogi ardaloedd a gweithgareddau Cymunedau yn Gyntaf.
- **Amcanion cyffredin:** Bydd arweiniad a chyfraniad y gymuned yn hollbwysig, yn ogystal â gweithio gydag asiantaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- **Gwaith partneriaeth effeithiol:** I helpu'r gwaith o gysylltu â phartneriaid allweddol a gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael, bydd strwythur newydd y rhaglen yn seiliedig ar lai o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf mwy o faint, a elwir yn 'Glystyrau'. Bydd pob Clwstwr yn rhydd i benderfynu ar y strwythurau gorau (fel partneriaethau lleol, cyfarfodydd cyhoeddus ac ati) fel y gall pobl leol gymryd rhan lawn yn y rhaglen yn y dyfodol. Dyrennir adnoddau, gan gynnwys staff, i bob Clwstwr.
- **Targedu adnoddau i gynorthwyo pobl ddifreintiedig:** Bydd y ffiniau'n fwy hyblyg hefyd, i sicrhau bod y rhaglen yn cefnogi'r unigolion, y teuluoedd a'r grwpiau mwyaf difreintiedig, a bydd y camau gweithredu'n seiliedig ar dystiolaeth glir o angen.
- **Rhaglenni a chanolbwyntiau cymunedol:** Bydd cyfle i bob un o Glystyrau newydd Cymunedau yn Gyntaf ddatblygu rhaglenni a fydd yn adlewyrchu anghenion yr ardal honno a nodau'r cymunedau lleol a'u partneriaid. Bydd sefydliadau cymunedol lleol (a elwir yn "Ganolbwyntiau Cymunedol") yn gwneud cyfraniad allweddol mewn rhai ardaloedd.
- **Dangos effaith y rhaglen:** Mae'n rhaid i'r rhaglen allu dangos yn glir ei bod yn cyfrannu at fynd i'r afael ag anghenion addysg, sgiliau, economaidd ac iechyd, a faint o gyfraniad y mae'r gymuned ei hun wedi'i wneud i gyflawni'r rhaglen. Cyflwynir fframwaith monitro newydd i ddangos sut mae camau gweithredu lleol yn cyfrannu at ganlyniadau allweddol.
- **Cynorthwyo'r gweithlu Cymunedau yn Gyntaf:** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod y rheini sy'n cefnogi'r rhaglen yn gallu cael gafael ar hyfforddiant ac arweiniad priodol i'w datblygiad personol fel y gallant gefnogi amcanion y rhaglen.

- **Strwythur rheoli, cydgysylltu a chymorth syml:** Bydd strwythur rheoli symlach yn cael ei gyflwyno i leihau biwrocratiaeth a sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflawni'r fwy cyson ledled Cymru, gan ganolbwyntio ar ddyrannu adnoddau i'r rheng flaen. Caiff trefniadau cymorth cenedlaethol unedig eu cyflwyno hefyd.

Sut i wneud sylwadau ar y cynigion

Rydym am glywed eich barn am y cynigion. Rydym yn croesawu ymatebion gan unigolion, grwpiau cymunedol, sefydliadau ac unrhyw un arall sydd â buddiant. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae'r ddogfen ymgynghori lawn ar gael ar-lein yn **www.wales.gov.uk/consultations/?lang=cy** o dan y teitl Cymunedau yn Gyntaf – Y Dyfodol.

I'w gwneud yn haws i chi ymateb i 'Cymunedau yn Gyntaf – Y Dyfodol', rydym wedi llunio cyfres o gwestiynau i chi eu hateb. Gallwch weld y cwestiynau allweddol trwy ddilyn y ddolen uchod.

Ble i anfon eich ymatebion

Y dyddiad cau ar gyfer sylwadau ar yr ymgynghoriad yw 26 Medi 2011.

Byddai'n well gennym pe bai ymatebion yn cael eu cyflwyno ar-lein trwy'r adran Ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru – **www.wales.gov.uk/consultations/?lang=cy** o dan y teitl Cymunedau yn Gyntaf – Y Dyfodol. Gallwch ddod o hyd i ffurflen ymateb ar-lein yn yr adran "Tai a chymunedau". Byddwn hefyd yn derbyn ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad hwn.

Anfonwch eich ymatebion i:

E-bost: **Communities.first@cymru.gsi.gov.uk**

Neu:
Uned Cymunedau yn Gyntaf, Llawr 2, Swyddfa Llywodraeth Cymru,
Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ.

Mae rhagor o wybodaeth am raglen Cymunedau yn Gyntaf ar gael yn **www.cymru.gov.uk/cymunedauyngyntaf**.

Efallai y bydd eich ymateb yn cael ei gyhoeddi. Os nad ydych chi am i'ch ymateb gael ei gyhoeddi, nodwch hynny yn eich ymateb.

Strwythur Trefniadol Arfaethedig ar ôl mis Mawrth 2012



© Hawlfraint y Goron 2011